

Polisi Diogelu

2017-18

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Cyd-destun	2
Egwyddorion sylfaenol y polisi.....	6
Rolau a Chyfrifoldebau.....	7
Hyfforddiant.....	8
Cofnodion a monitro.....	8
Mynychu cynadleddau achos	9
Cynorthwyo plant mewn perygl	9
Atodiad 1 - Diffiniadau	10
Atodiad 2 – Llenyddiaeth Allweddol	13

Rhagarweiniad

Diogelu ydy amddiffyn pobl ifanc ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddull partneriaeth cadarnach, trylwyr ac effeithiol o fynd ati i ddiogelu. Un o egwyddorion pwysicaf y ddeddf hon ydy mai cyfrifoldeb pawb ydy hyn. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin.

Ar ben hynny, mae dull Cristnogol o fynd ati i ddiogelu pobl ifanc yn gofyn i unigolion a chymunedau i greu amgylchedd diogel ar eu cyfer, i weithredu'n brydlon ar unrhyw achwyniad a wneir, i ofalu am y rhai hynny sydd wedi cael eu cam-drin ynghyd â hyrwyddo llesiant i bawb.

Cyd-destun

Coleg Catholig ydy Dewi Sant sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb, mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch wedi'i ysbrydoli gan Grist.

Mae Diogelu ein pobl ifanc yn ganolog i'r Ethos Catholig.

Cyflawnir hyn mewn nifer o ffyrdd:

- **Gweithio'n aml-asiantaethol:**

Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gydweithwyr ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu a'r Sectorau Gwirfoddol ac Annibynnol i herio a brwydro yn erbyn camdriniaeth ac i hyrwyddo hawliau pobl hyglwyf (agored i niwed) a phobl ifanc. Gall camdriniaeth fod yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun neu'n gyfres o ddigwyddiadau. Gall ddigwydd yng nghartref yr unigolyn neu mewn canolfannau dydd neu ganolfannau preswyl, mewn clinigau ac ysbytai ac yn wir yn y Coleg. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion hyglwyf. Mae'r Coleg wedi datblygu'r polisi hwn fel y gall yntau chwarae ei ran i ostwng camdriniaeth.

Mae polisi Fforwm Diogelu Oedolion De Cymru yn datgan: "Mae datblygu a gweithredu polisi effeithiol ac arferion proffesiynol ar gyfer ymateb i gam-drin oedolion hyglwyf yn gofyn am ddull aml-asiantaethol o fynd ati, wedi'i gydlyn yn lleol gan adran gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol ac yn cynnwys gwasanaethau craidd maes iechyd a'r heddlu ynghyd â'r asiantaethau hynny sy'n gofalu am oedolion agored i niwed a'u diogelu."

Mae'r Coleg yn cydnabod ei ran yn y dull aml-asiantaethol o fynd ati a bydd yn cydweithio gyda'i bartneriaid i'r perwyl hwn.

- **Rôl y Coleg**

Mae'r Coleg yn cymryd ei rôl a'i gyfrifoldeb i amddiffyn a diogelu llesiant a buddiannau'r holl bobl ifanc yn ei ofal. Mae ei rôl wrth ddiogelu pobl ifanc rhag cael eu hecsploetio'n flaenoriaeth hanfodol o'i genhadaeth fel Coleg Catholig. Mae delio â diogelu ac amddiffyn pobl ifanc yn faes gwaith ymdrechgar ac anodd. Ond mae'r canlyniadau boddhaus a geir pan fydd staff yn cydweithio'n llwyddiannus i gynorthwyo ac amddiffyn pobl ifanc yn gorbwyso'r anawsterau hyn. Mae'r Coleg yn cydnabod y ffactorau hyn a'i nod ydy sicrhau bydd y staff yn derbyn hyfforddiant, canllawiau a chyfarwyddyd priodol yn y maes sensitif ond hanfodol hwn.

- **Gweithdrefnau tryloyw sy'n cael eu hadolygu'n gyson**


Mae digon o dystiolaeth bod diogelu effeithiol yn gofyn am weithdrefnau clir a chadarn, cydweithio a chydweithredu da rhwng asiantaethau a'i gilydd ac yn gofyn bod y rhai sy'n gweithio yn y maes hwn yn bobl gymwys a hyderus wrth ganfod ac ymateb i sefyllfaoedd diogelu. Byddwn hefyd yn cydweithredu gyda'r Archesgobaeth Gatholig i symud y broses yn ei blaen. Wrth lunio'r polisi hwn, bydd y Coleg yn tynnu ar brofiad, gweithdrefnau ac arferion gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amgylchoedd addysgol, cymdeithasol a iechyd a'r awdurdod lleol a meysydd perthnasol eraill. Mae'r Coleg yn troi at y gweithwyr proffesiynol hyn yn rheolaidd. Mae'r polisi hwn hefyd wedi'i seilio ar arferion da cydnabyddedig, cenedlaethol a'i nod ydy gweithredu'n unol â pholisïau, protocolau a gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Plant.

- **Cyfrifoldeb bugeiliol a hybu pobl ifanc i wireddu eu potensial**

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd statudol hon mae gan y Coleg gyfrifoldeb bugeiliol sy'n cydnabod bod gan yr holl bobl ifanc sydd angen defnyddio'i wasanaethau hawl sylfaenol i gael eu diogelu rhag niwed. Lluniwyd y polisi hwn i ail-gadarnhau ein cyfrifoldebau a'n nodau er mwyn sicrhau staff bod yr holl staff sy'n gweithio gyda neu ar ran pobl ifanc yn ymwybodol o'r angen i weithredu mewn modd cyson er mwyn gwella llesiant a diogelwch pobl ifanc.

- **Rolau dynodedig**

Mae gan y Coleg 2 Swyddog Diogelu, 2 Gwnsler rhan amser a Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb dros Ddiogelu. Mae gan y Coleg hefyd aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel y Person Diogelu Dynodedig a Dirprwy Person Diogelu Dynodedig. Mae'r diagram canlynol yn darlunio'r rolau hyn.



- **Gweithredu o fewn dyletswyddau statudol**

Bydd y Coleg hefyd yn gweithredu o fewn dyletswyddau statudol ac yn dilyn polisiau/rheoliadau AdAS(DfES) Llywodraeth Cymru wrth gyflawni dyletswyddau'r Coleg a chyrrff perthnasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrrff llywodraethol a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Dogfen ganllawiau rhif 158/2015. Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2015
- Diogelu plant mewn addysg: trin honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill. Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, penaethiaid, staff ysgol, cyrrff llywodraethol a pherchnogion ysgolion annibynnol. Canllawiau Llywodraeth Cymru, cylchlythyr rhif: 009/2014 Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2014
- Deddf Plant 1989 Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (awdurdodau lleol, cyrrff llywodraethol ysgolion a gynhelir a sefydliadau sydd yn y sector addysg bellach), Adran 157 o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol Cymru 2003 Deddf Plant 2004 Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 (asiantaethau eraill) Adrannau 141F, 141G a 141H o Ddeddf Addysg 2002.
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ("Gweithio Gyda'n Gilydd") a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sy'n darparu canllawiau ac yn sail i arferion amddiffyn plant ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru a'u partneriaid statudol.
- Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Gweithdrefnau ar gyfer Honiadau o Gam-drin gan Weithwyr Proffesiynol (AWCPP / Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru gyfan Rhan IV) Diogelu plant mewn addysg: trin honiadau yn erbyn athrawon a staff eraill: Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif 009/2014.

- Adran 59 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (18+)
- Diogelu Plant mewn Addysg: rôl yr awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2008
- Mae cyfrifoldebau PREVENT y Coleg o dan Ddeddf Gwrth Derfysgaeth a Diogelwch 2015 hefyd yn rhan annatod o'r Polisi Diogelu. Cyhoeddodd y Llywodraeth 'Prevent Duty Guidance': Canllawiau ar gyfer awdurdodau penodedig yn Lloegr a Chymru ar y ddyletswydd yn Neddf Gwrth Derfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi'r sylw dyladwy i'r angen o rwystro pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'. Mae gofyn cyfreithiol i awdurdodau penodedig, sy'n cynnwys Colegau Addysg Bellach, Prifysgolion, Ysgolion a Byrddau Iechyd i gydymffurfio.

Strategaeth PREVENT (2011):

- ymateb i'r her ideolegol yr ydyn ni'n ei hwynebu o du derfysgaeth ac agweddau o eithafiaeth, a'r bygythiad sydd yn ein hwynebu o du y rhai hynny sy'n hyrwyddo'r syniadau hyn
- darparu help ymarferol i rwystro pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a sicrhau eu bod yn cael y cyngor a'r cymorth priodol
- gweithio gydag ystod o sectorau (yn cynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, ar-lein a iechyd) lle ceir risg o radicaleiddio y mae angen i fynd i'r afael ag e.

Mae'r strategaeth yn delio â phob math o derfysgaeth, gan gynnwys eithafiaeth yr adain dde a rhai agweddau o eithafiaeth di-drais.

Ymhlith deddfwriaethau perthnasol eraill y mae'r Coleg yn cydymffurfio â nhw mae:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Datgelu er lles y Cyhoedd 1998
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Ymhlith y polisiau mewnol sy'n cynorthwyo egwyddorion ac arferion diogelu mae:

- Polisi ar Urddas Myfyrwyr
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi ar e-ddiogelwch
- Polisi ar Gydraddoldeb
- Polisi Cwnsela
- Polisi ar Ysgoloriaeth Ymchwil
- Polisi 'Prevent'

Egwyddorion sylfaenol y polisi

Oedolion ifanc

Mae pob oedolyn ifanc yn haeddu cael y cyfle i wireddu eu potensial llawn. Dylen nhw fod yn gallu:

- bod mor gorfforol a meddyliol iach â phosibl
- cael y budd mwyaf posibl o gyfleoedd addysg uchel eu hansawdd
- byw mewn amgylchedd diogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed
- profi llesiant emosiynol
- teimlo cariad a theimlo eu bod yn werthfawr a chael cymorth rhwydwaith o gysylltiadau dibynadwy a serchog.
- bod yn gymwys i edrych ar ôl eu hunain ac ymdopi gyda bywyd bob dydd
- meddu ar hunan-ddelwedd bositif a sicrhau synnwyr o hunaniaeth gan gynnwys hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol
- datblygu sgiliau rhyngpersonol a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol

Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc:

- osod y pwysigrwydd mwyaf ar drin lles pobl ifanc
- fod yn wylidwrus a chwilio am arwyddion posibl o gamdriniaeth ac esgeulustod
- fod yn wylidwrus o'r peryglon y gallai camdrinwyr unigol, neu gamdrinwyr posibl, greu i bobl ifanc
- bod yn ymwybodol o effeithiau camdriniaeth ac esgeulustod ar bobl ifanc
- cyfrannu yn ôl yr angen at bob cam o'r broses ddiogelu.

Oedolion Ifanc a'r rhai hynny sydd efallai'n hyglwyf

Mae gan oedolion ifanc allai fod yn agored i gael eu cam-drin yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a chael cymorth i chwilio am driniaeth a iawndal os digwydd iddyn nhw gael eu cam-drin.

Felly, i gefnogi'r egwyddorion hyn, mae'r polisi yn defnyddio dull aml-fforchog o fynd ati i ddiogelu:

- I. Ataliad (awyrgylch positif yn y Coleg, addysgu gofalus a gwyliadwrus, gofal bugeiliol, cymorth i fyfyrwyr, darparu modelau rôl da, cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaliaeth ac eithafiaeth);
- II. Amddiffyniad (wedi dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnyn nhw gan sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi a'u cynorthwyo i ymateb yn briodol ac yn sensitif i bryderon Swyddog Diogelu); a hefyd
- III. Cymorth (i staff y coleg ac i blant a phobl ifanc a allai fod wedi'u cam-drin)

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan bob oedolyn sy'n gweithio gyda neu ar ran pobl ifanc gyfrifoldeb drostyn nhw i amddiffyn pob ifanc. Yn wir, mae gan bob unigolyn o fewn cymuned Dewi Sant ddyletswydd i riportio unrhyw arwydd o bryder yn syth.

O fewn y Coleg, mae gan yr unigolion canlynol gyfrifoldebau arbennig:

Ruth Jones ydy'r Person Diogelu Dynodedig sy'n cael ei chynorthwyo gan Ddirprwy Berson Diogelu Dynodedig - Jamie Beynon.

Rôl y Person Diogelu Dynodedig (a'r Dirprwy) ydy:

- Hysbysu'r Pennaeth am bob mater Diogelu a allai godi
- Cysylltu â Llywodraethwr y Coleg â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu
- Cysylltu â Swyddog Diogelu yr Esgobaeth sydd â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu o fewn Archesgobaeth Caerdydd
- Sicrhau bod Llywodraethwr y Coleg sydd â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu yn derbyn yr hyfforddiant priodol mewn Diogelu
- Delio gydag achwynion yn erbyn oedolion sy'n gweithio yn y Coleg

Michele Kerr ydy'r Prif Swyddog Diogelu a Llesiant ac mae'n cael ei chynorthwyo gan Swyddog Diogelu ychwanegol sef – Chris Blower.

Rôl y Swyddog Diogelu ydy cydlynu gwaith perthnasol i Ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys:

- Delio gydag adroddiadau o gam-drin plant a phobl ifanc
- Atgyfeirio pobl at asiantaethau Diogelu os yw'n briodol
- Sicrhau bod yr holl oedolion sy'n gweithio yn y Coleg yn derbyn hyfforddiant mewn Diogelu
- Sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael eu sefydlu'n briodol ym maes Diogelu
- Cysylltu â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod strategaethau ataliad yn cael eu hymgorffori yn y rhaglen fugeilio y mae pob myfyrwyr yn ei dilyn.

Rôl Llywodraethwr y Coleg â chyfrifoldeb dros Ddiogelu ydy Canon Peter Collins a'i rôl ydy:

- Cysylltu â'r Swyddog Diogelu ar faterion ym ymwneud â'r polisi Diogelu.

Mae gan y Coleg Banel Diogelu y mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys y canlynol:

1. Cydlynu materion diogelu
2. Mireinio a chymeradwyo polisi a gweithdrefnau
3. Adolygu llwyddiant gweithredu polisi a gweithdrefnau
4. Creu fforwm lle gellir mynegi pryderon difrifol a, lle bo angen, ffurfio a gweithredu unrhyw gynseiliau
5. Cyfrannu at agenda PREVENT
6. Caniatáu i wybodaeth gael ei lledaenu lle bo'n briodol gan aelodau'r grŵp i'w meysydd swyddogaethol eu hunain

Bydd y Panel Diogelu yn cynnwys y canlynol:

- Cynrychiolaeth o'r UDA
- Dirprwy BDD
- Swyddogion Diogelu
- Cynrychiolydd Hyfforddwyr Dysgu
- Rheolwr Iechyd a Diogelwch
- Cynrychiolydd y Cyfarwyddwyr Bugeiliol
- Cynrychiolydd y Gaplaniaeth
- Rheolwr Arholiadau
- Rheolwr TGD

Hyfforddiant

Mae Coleg Catholig Dewi Sant hefyd yn sicrhau bod y Pennaeth Cynorthwyol, Swyddogion Diogelu, y Llywodraethwr â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu a Hyfforddwyr Dysgu yn derbyn hyfforddiant perthnasol i'w rôl. Mae'r Coleg hefyd yn sicrhau bod yr holl staff yn cael y newyddion diweddaraf am faterion Diogelu d drwy raglen HMS staff.

Cofnodion a monitro

Mae cofnodion cyfredol yn hanfodol i arferion diogelu da. Y Swyddog Diogelu sy'n gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrinachol o bob pryder a fynegwyd am blentyn, gan gynnwys y camau a weithredwyd. Rhennir gwybodaeth gydag asiantaethau eraill yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn. Bydd copïau yn cael eu llwytho i fyny i adran ddiogel o SharePoint a chedwir copïau papur yn ddiogel dan glo ar bob adeg. Hefyd, mae gan yr 'eilp' a SharePoint adran log breifat lle gellir logio gwybodaeth gyfrinachol i fonitro a logio pob gohebiaeth.

Gall tystiolaeth o gam-drin plant ddod i'r amlwg mewn gwahanol ffyrdd a thros gyfnod o amser a gall gwybodaeth o ran amheuaeth neu honiad o gam-drin ddod o nifer o ffynonellau gan gynnwys dysgwyr, rhiant, staff neu eraill. Felly, mae sicrhau cofnodion clir yn hanfodol.

Yn ychwanegol, cofnodir a dadansoddir yn gyson ac adroddir yn ôl mewn cyfarfodydd y Llywodraethwyr ac mewn cyfarfodydd yr Uwch Arweinyddiaeth.

Mae'r Gweithdrefnau Diogelu cyfatebol yn cynnwys pro-fforma a dylid ei ddefnyddio i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau diogelu.

Mynychu cynadleddau achos

Bydd y Swyddog Diogelu yn cynrychioli'r Coleg a darparu gwybodaeth berthnasol ar gyfer cynadleddau achos lle bo'n briodol.

Cynorthwyo plant mewn perygl

Mae'r Coleg yn cydnabod y gallai plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin ei chael hi'n anodd i ddatblygu synnwyr o hunan-werth ac i ystyried y byd yn gadarnhaol. Y Coleg efallai yw'r unig elfen sefydlog, sicr a rhagfynegadwy ym mywydau rhai o'r plant a'r bobl ifanc o dan ei ofal. Gallai'r cyfryw blant a phobl ifanc ymddwyn yn heriol a herfeiddiol a bydd y Coleg yn nodi cyd-destun ymddygiad o'r fath yn ofalus.

Gallai rhai plant a phobl ifanc sydd wedi profi camdriniaeth yn eu tro droi i gam-drin eraill. Mae hyn yn gofyn am ddull ystyriol a sensitif o fynd ati er mwyn i'r plentyn hwnnw allu derbyn help a chefnogaeth.

Plant a phobl ifanc ag anawsterau ymddygiad ac anabledau ydy'r rhai sydd mwyaf agored i gael eu cam-drin. Bydd angen i staff y Coleg sy'n gweithio, mewn unrhyw fodd, gyda phlant a phobl ifanc ag anabledau lluosog a dwys, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiad, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

Ar aelwyd lle mae trais domestig, cam-drin alcohol neu gyffuriau, gallai plant a phobl ifanc hefyd fod yn agored i niwed ac angen cymorth a chael eu hamddiffyn.

Mae'r Coleg yn cydnabod bod plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr yn agored i niwed emosiynol ac mae'r Coleg yn ymwybodol o'r angen i ddarparu cymorth ar gyfer "gofalwyr ifanc" fel hyn.

Wrth gynhyrchu dogfen Gweithdrefnau Diogelu Dewi Sant cyfatebol, glynir hefyd at egwyddorion **Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo ar gyfer staff ysgol Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 002 2013 (Ionawr)**.

Atodiad 1 - Diffiniadau

Ysgrifennwyd y polisi gan gyfeirio at y mentrau a chanllawiau a'r diffiniadau canlynol:

Diogelu plant

Er nad oes diffiniad statudol o ddiogelu, mae 'Diogelu plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn datgan bod diogelu a hyrwyddo llesiant plant yn ymwneud â'r canlynol:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso
- atal niwed i'w hiechyd neu eu datblygiad; a
- sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol;

...er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.

Diogelu oedolion hyglwyf

O ran diogelu oedolion hyglwyf (agored i niwed), eto does dim diffiniad statudol. Er nad yw 'Mewn Dwylo Diogel: gweithredu Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yng Nghymru' yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o ddiogelu oedolion hyglwyf, mae'n diffinio cysyniadau 'oedolyn hyglwyf' a 'niwed sylweddol' ar wahân (gweler isod am y diffiniadau hyn).

Yn y bôn, mae gan bob oedolyn hyglwyf yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, yr hawl i dderbyn gofal priodol ac i gael eu cynorthwyo i geisio help os ydyn nhw'n cael eu cam-drin.

Beth ydy Plentyn?

Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) 'Diogelu plant; gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn egluro mai plentyn yw unrhywun heb gyrraedd 18 oed. Felly mae 'Plant' drwy'r ddogfen hon yn golygu 'plant a phobl ifanc'. Dydy'r ffaith bod plentyn wedi troi'n 16 oed ac yn byw'n annibynnol neu mewn Addysg Bellach, neu'n aelod o'r lluoedd arfog, neu yn yr ysbyty neu yn y carchar neu mewn sefydliad troseddwy'r ifanc, ddim yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau a chael ei amddiffyn o dan Ddeddf Plant 1989.

O dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol (ALI) a chyrrff llywodraethu yn y sector a gynhelir sicrhau eu bod yn diogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r gofyniad hyn

hefyd yn berthnasol ac yn ymestyn i gyrff llywodraethol sefydliadau, er enghraifft o fewn y sector addysg bellach.

Beth ydy oedolyn hyglwyf?

Ceir diffiniad o 'Oedolyn Hyglwyf' yn adran 59 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 sef unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 oed ac:

- a) mewn llety preswyl,
- b) mewn llety cysgodol,
- c) yn derbyn gofal cartref,
- d) yn derbyn unrhyw ffurf o ofal iechyd,
- e) yn cael ei gadw yn gyfreithlon yn y ddalfa,
- f) sydd, drwy rinwedd gorchymyn llys o dan oruchwyliaeth person sy'n arfer swyddogaethau at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p. 43),
- g) yn derbyn gwasanaeth lles o ddisgrifiad rhagnodedig,
- h) yn derbyn unrhyw wasanaeth neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a ddarparwyd yn benodol ar gyfer unigolyn sy'n dod o fewn is-adran (9),
- i) yn derbyn taliadau (neu taliadau a delir i rywun ar ei ran) yn dilyn trefniadau adran 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 15), neu
- j) sydd angen cymorth i roi trefn ar ei bethau ..."

Beth ydy risgiau Diogelu i Blant

Daw'r diffiniadau canlynol o bennod chwech 'Diogelu Plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007):

Esgeuluso

Esgeuluso plentyn yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerfel, newyn neu fethiant eithafol i gynnal agweddau pwysig o ofal yn achosi niwed sylweddol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn gan gynnwys diffyg ffyniant anorganig.

Camdriniaeth gorfforol

Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu, neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd pan fo rhiant neu ofalydd yn ffugio neu'n peri salwch mewn plentyn yn eu gofal.

Camdriniaeth emosiynol

Cam-drin plentyn yn emosiynol barhaus sy'n cael effaith andwyol, difrifol a thaer ar ddatblygiad ymddygiadol ac emosiynol y plentyn.

Camdriniaeth rywiol

Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:

- ☒ cyffyrddiad corfforol, gan gynnwys treiddiad neu heb fod yn weithredoedd treiddio;
- ☒ gweithgareddau di-gyffwrdd megis cael plant i edrych ar neu i fod yn rhan o ddeunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol; neu
- ☒ annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol rywiol

Niwed sylweddol

Mae Adran 31 (10) o Ddeddf plant 1989, yn datgan 'mae'r cwestiwn a ydy'r niwed y mae plentyn yn ei ddioddef yn niwed sylweddol yn dibynnu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, dylid cymharu iechyd neu ddatblygiad y cyfryw blentyn â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl mewn plentyn tebyg'.

Camdriniaeth seicolegol

Yn cynnwys bygwth niwed neu adael a chefnu ar y plentyn, bychanu a gwaradwyddo, cam-drin llafar neu hiliol, ynysu neu dynnu nôl o wasanaethau neu rwydweithiau cymorth.

Camdriniaeth ariannol neu faterol

Yn cynnwys lladrad, twyll, pwysau o ran ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth, camddefnydd neu gam-gyfeirio budd-daliadau.

Camdriniaeth ar sail hil

Gallai hyn fod yn unrhyw un o'r rhain a dylid nodi hyn hefyd mewn sefyllfaoedd lle mae'r dioddefwr yn credu mai hiliaeth oed wrth wraidd y cam-drin.

Bydd rhai achosion o gam-drin yn droseddau. Yn hyn o beth, mae hawl gan blant ac oedolion hyglwyf gael eu hamddiffyn gan y gyfraith. Yn unol â hynny, pan fydd awgrym o drosedd mewn achwynion am gamdriniaeth honedig, mae'n hanfodol cyfeirio hyn fel mater o frys at yr heddlu. Mae ymchwiliadau troseddol yr heddlu yn cael blaenoriaeth dros unrhyw drywydd ymholi arall.

Atodiad 2 – Llenyddiaeth Allweddol

- Ceir cod ymarfer Estyn ar gyfer arolygwyr yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'i ymestyn ymhob llawlyfr arolwg.
- Polisi Estyn ar recriwtio diogel ar gyfer y rhai sy'n gweithio i Estyn
- Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004..
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006: Gweithgareddau dan Reolaeth Cymru
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95: Amddiffyn plant rhag camdriniaeth – rôl y gwasanaeth addysg (Saesneg yn unig)
- Diogelu Plant mewn Addysg: rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol o dan Ddeddf Addysg 2002, 005/2008, yn enwedig tudalennau 101-104, am ganllawiau perthnasol, cyhoeddiadau eraill a rheoliadau.
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol; Cymru 34/02 Swyddog Diogelu: rhwystro pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg.
- Diogelu plant lle ffugwyd neu achoswyd salwch ynddyn nhw (2008).
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 02/03 Swyddfa Cofnodion Troseddol: ffeithiau sylfaenol ar gyfer gwirfoddolwyr ysgol.
- Diogelu plant mewn addysg: delio â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill: Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014.

- Deddf Gwrth Derfysgaeth a Diogelwch 2015